

Yr Eglwys

Darllen: Mathew 21:14

Gellid llunio pennawd rhagorol i bapur newydd o'r adnod hon o Efengyl Mathew – 'Gwella'r deillion a'r cloffion yn y deml'. Gwyddai Iesu a'r bobl beth oedd yn digwydd yn y deml yn Jerwsalem. Erbyn hyn, nid lle i roi i Dduw ydoedd ond lle i ddwyn oddi ar ddynion. 'Tŷ gweddi oedd y deml i fod,' meddai, gan hyrddio'r byrddau oedd yn dal yr adar a'r anifeiliaid a werthid am grobris ar gyfer eu haberthu yn y cynteddau. Ond yng nghanol y trythyllwch a'r anfri hwn, roedd y deillion a'r cloffion yn dal i ddod i gael eu hiachau.

Yr hyn yr oedd Iesu'n ei feirniadu'n chwyrn oedd y twyll a'r anlladrwydd a ddigwyddai yn enw Duw. Y syniad ein bod yn gallu taro bargaen â Duw – rhyw fath o gyfrif credyd. Gallwn ofyn iddo ddileu ein dyledion, sef cyfrif bod ein gweithredoedd da yn fwy na'n gweithredoedd drwg. Gallwn ofyn iddo wneud cyfrif o'r dyddiau y buom yn garedig a chymwynasgar, ac anwybyddu'r dyddiau y buom yn anghwrtais a blin. Gallwn ei atgoffa hefyd o'r arian rydyn ni wedi'i roi i elusennau y bydden ni wedi medru ei ddefnyddio i brynu nwyddau ar gyfer y tŷ. Ond dyma Iesu'n dod a throi'r byrddau i gyd. Does yna ddim llyfrau credyd yn swyddfa Duw. A dweud y gwir, does ganddo ddim swyddfa. Ac os ydyn ni'n credu y gallwn daro bargaen â Duw, yna wyddon ni ddim byd am fawredd Duw. Fedrwn ni ddim bargeinio â Duw am fywyd tragwyddol. Derbyn y bywyd hwnnw wnawn ni fel rhodd trwy ffydd yn Iesu Grist.

Dychmygwch fyrddau'r deml wedi eu troi drosodd, a'r gwerthwyr ar eu gliniau'n clirio'r ysbail a'r llanast, ac yn gwneud eu gorau glas i ddal yr adar a'r anifeiliaid oedd yn rhuthro i bob cyfeiriad. A dyna lle mae Iesu'n croesawu'r dall a'r cloff. Dyna i chi ddarlun trist a phrydferth yr un pryd. Dychmygwch y cleifion yn crafangu dros y byrddau, yn baglu a syrthio a chodi eto er mwyn dod at Iesu.

A dyma ddod â ni at y cwestiwn hollbwysig – beth ydi pwrpas yr eglwys? Beth sy'n ei gwneud yn unigryw yn ein cymdeithas? Dyma'r lle y gallwn brofi gweinidogaeth iachau Iesu Grist. Mae rhai'n dadlau nad ydyn ni angen eglwys ac y gallwn fod yn Gristnogion hebddi. Na, dydi'r eglwys ddim yn berffaith. Roedd yna gymaint o ffaeledau yn perthyn i'r deml yn Jerwsalem. Gofynnwyd i mi unwaith a ydi eglwysy'r Annibynwyr yn berffaith. Bu'n rhaid i mi ateb yn y negyddol. Ond fe ychwanegais, petaen nhw'n darganfod yr eglwys berffaith na ddylen nhw ymuno â hi am eu bod yn amherffaith ac felly'n sicr o'i llygru maes o law.

Y cwestiwn a ddylai fod ar ein gwefusau ydi, ydi hon yn eglwys y gallwn gyfarfod ag Iesu ynndi, sy'n rhannu ei roddion trwy roi golwg i'r dall a'r gallu i gerdded i'r cloff. Ef sy'n rhoi'r gallu i weld yn glir beth sy'n iawn a beth sydd ddim yn iawn, a beth sy'n bosibl yn y bywyd hwn. Mae o nid yn unig yn rhoi i ni lygaid i weld ond hefyd nerth i gerdded yng ngoleuni'r weledigaeth. Mor aml y mae ein trafodaeth am yr eglwys wedi ei chyfyngu i adeiladau a chyfraniadau i bencadlys ein henwadau. Rhoi wnaeth Iesu, 'Hwn yw fy nghorff ... Hwn yw fy ngwaed'. Dyma'i roddion i ni heddiw.

Myfyrdod pellach:

Tybed oes rhaid chwyldroi ein syniadau am eglwys?

Pa mor bell, neu agos, ydi'ch eglwys chi at ddelfrydau Iesu?